

Annwyl Riant Warcheidwad

Medi 2013

Ar ddechrau blwyddyn dymunaf ddod â rhai dyddiadau a gweithgareddau ysgol i'ch sylw.

11 Medi	Gweithdy Cyfansoddwr Ifanc Dyfed
13 Medi	Gwaith Maes Daearyddiaeth Bl 11
18 Medi	WWAYS - Darlith Wyddonol Bl 10 Prifysgol Aberystwyth
19 Medi	Criw Craff i Fl 7
27 Medi	Rasus Moch yng Nghlwb Rygbi Aberaeron 7.30yh
3 Hyd	Noson Agored Blynnyddoedd 4,5 a 6
11 Hyd	Ymweliad Arad Goch
22 Hyd	Bl 11/12 – Diwrnod o Dechnegau Adolygu WWAYS - Darlith Wyddonol Bl 10 Prifysgol Aberystwyth
25 Hyd	HMS
28 Hyd – 1 Tach	Hanner Tymor
5/11 Tach	Arholiadau TGAU (Ail-sefydd)
7 Tach	Noson Rieni Bl 12/13 (3.45-6.15p.m.)
12/14 Tach	Sioe'r Ysgol
13 Tach	Lluniau Bl 7 a 10
15 Tach	Diwrnod Plant Mewn Angen
28 Tach	Noson Rieni Bl 11 (3.45-6.15p.m.)
3 Rhag	Gweithdy STEM Bl 9
5-13 Rhag	Arholiadau Mewnol Blyn 11/12/13
6 Rhag	Taith Bl 7 i weld Panto yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth
13 Rhag	Dosbarthu Adroddiadau Bl 13 Adroddiadau Interim Blyn 7-10
14/21 Rhag	Taith Sgïo
19 Rhag	WWAYS - Darlith Wyddonol Bl 10 Prifysgol Aberystwyth
20 Rhag	Gwasanaeth Carolau Diwedd Tymor
6 Ion	HMS
7 Ion	Dechrau Tymor i ddisgyblion

Dyddiadau pwysig eraill yn ystod y flwyddyn

6/22 Ion	Arholiadau modiwl CBAC Bl 13 yn unig
16 Ion	Noson Rieni Bl 10 – (3.45-6.15yh)
17 Ion	Dosbarthu Adroddiadau Bl 11/12
30 Ion	Noson Rieni Bl 7 – (3.45-6.15yh)
31 Ion	HMS
12 Chwe	Y Cam Pwysig nesaf Bl 11
19 Chwe	Y Cam Pwysig nesaf Bl 9
21 Chwe	EISTEDDFOD
24-28 Chwe	Hanner Tymor
6 Maw	Noson Rieni Bl 9 – (3.45-6.15yh)
10 Maw	HMS
11 Maw	Diwrnod o Dechnegau Adolygu i Fl 10
12 Maw	Eisteddfod Cylch Aeron
13 Maw	Noson Rieni Bl 8 – (3.45-6.15yh)
26 Maw	Eisteddfod Ddawns y Sir
28 Maw	Eisteddfod Sir ym Mhontrhydfendigaid
31 Maw / 4 Ebr	Arholiadau Mewnol Bl 10
9 Ebrill	Noson Wobrwyo
11 Ebrill	Taith Wyddoniaeth Bl 7/8
11/13 Ebrill	Alldaith Gwobr Arian Dug Caeredin – Ymarfer Bl 10
14/25 Ebrill	Gwyliau Pasg
28 Ebrill	Dechrau Tymor
1/7 Mai	Arholiadau Bl 9
5 Mai	Gŵyl Fai
8 Mai	Bl 11 PROM
12 Mai - 20 Meh	Cyfnod Arholiadau UG / U / TGAU
12 – 23 Mai	Adolygiadau datganiadau
26/30 Mai	Hanner Tymor
16 Meh	Alldaith Gwobr Aur Dug Caeredin i Fl 12
19 Meh	Arholiadau Bly. 7/8
23 Meh - 4 Gorff	Gweithgareddau BAC
27 Meh	Mabolgampau
27/29 Meh	Alldaith Gwobr Dug Caeredin i Fl 10
3 Gorff	Arddangosfa Celf / Dylunio a Thechnoleg
5/6 Gorff	Alldaith Gwobr Efydd Dug Caeredin i Fl 9
10 Gorff	Diwrnod Sgiliau Hanfodol Bl 9
11/18 Gorff	Taith i'r Eidal
14-18 Gorff	Profiad Gwaith Bl 10
	Alldaith Gwobr Aur Dug Caeredin i Fl 12
16 Gorff	Gala Nofio
17 Gorff	Taith Bl 7-9
18 Gorff	Diwedd Tymor

Gadawodd wyth aelod o staff ar ddiwedd tymor yr haf. Hoffwn ddiolch iddynt am eu gwaith caled a'u cyfraniad gwerthfawr a dymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

Mrs Noreen Kay - Pennaeth TGCh
 Mrs Annabel Aynsley – SENCO
 Mr Clive Rees – Athro yn yr Adran Cynnal Dysgu
 Mr Graham Carden – Athro Gwyddoniaeth
 Mr Allwyd Edwards – Athro Gwyddoniaeth
 Mrs Gillian Leech – Athrawes Saesneg
 Mrs Yolanda Cooper – Athrawes Saesneg
 Miss Sian Robinson – Athrawes Cerddoriaeth

Penodwyd erbyn mis Medi

Miss Louise Russell – Pennaeth Cynhwysiant a'r Adran Cynnal Dysgu
 Mrs Eirlys James-Evans – Pennaeth TGCh

Mae nifer o athrawon newydd wedi ymuno â ni eleni ac rydym yn dymuno'n dda iddynt yn eu gyrfa yma:

Mr Naill McGinty – Pennaeth Ffiseg
 Miss Ceri Thomas – Athrawes Gerddoriaeth ac Addysg Grefyddol
 Mrs Rhian Thomas – Athrawes Saesneg
 Miss Manon Dafydd – Athrawes Gymraeg
 Miss Sioned Huws - Athrawes Gymraeg (dros gyfnod mamolaeth)
 Miss Lydia Jones – Athrawes Fathemateg a Gwyddoniaeth
 Ms Suki Morys – Athrawes Saesneg (rhan amser)
 Mr Gwilym Morgan – Athro Daearyddiaeth (dros gyfnod mamolaeth)

Canlyniadau Arholiadau

Hoffwn longyfarch y disgyblion ar eu canlyniadau yn yr arholiadau Safon A a TGAU . Mae'r tablau isod yn crynhoi perfformiad yr ysgol.

Safon A

	Ysgol	Cymru
A* - C	82%	75.5%
A* - A	28.9%	22.9%

Llwyddodd 100% o ddisgyblion ennill cymhwyster Bagloraeth Cymru sy'n cyfateb i radd A lefel "A". Braff oedd nodi bod pob un o'r disgyblion wnaeth cais i'r brifysgol wedi ennill y graddau i fynychu'r brifysgol o'u dewis cyntaf.

TGAU

	Ysgol	Ceredigion (dros dro)	Cymru
A* - C	80.4%	72.8%	65.7%
A* - A	24.6%	23.1%	19.2%
Saesneg A* - C	79%	70.6%	59.6%
Mathemateg A* - C	73%	67.6%	52.8%
Gwyddoniaeth A* - C	78%	64%	51.2%
Cymraeg A* - C	75%	74.8%	71.6%
5 TGAU A* - C gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu Cymraeg	69%	61.7%	51.1% (2012)
5 TGAU A* - C	83%	80.8%	72.8% (2012)
5 TGAU A* - G	97%	95%	91.3%

Presenoldeb Ysgol

Gwelwyd gwelliant llynedd eto yng nghanran presenoldeb yr ysgol, dengys y tabl ystadegau'r blynyddoedd unigol a chredaf yn gryf bod cysylltiad amlwg rhwng lefel presenoldeb a chanlyniadau TGAU Bl 11 llynedd. Y nod ar gyfer eleni yw ceisio torri'r 94%.

Blwyddyn	% Presenoldeb
7	95.0
8	93.9
9	92.8
10	93.5
11	94.6
Cyfanswm	93.9

Hoffwn gyfeirio at y canllawiau isod mae'r ysgol wedi eu derbyn gan y Cyfarwyddwr Addysg, Mr Eifion Evans, sy'n cyfeirio at bolisi'r chwe sir yn Ne-Orllewin a Chanolbarth Cymru.

'Mae'r chwe cyfarwyddwr o fewn Consortiwm Addysg y De-orllewin a'r Canolbarth eisoes wedi penderfynu y dylai'r holl absenoldebau a achosir gan ddisgyblion yn cymryd gwyliau adeg tymor, gael eu hystyried fel rhai anawdurdodedig.

*Mae'r cysylltiad rhwng presenoldeb da a safonau uchel yn un cryfiawn ac felly, mae'r Cyfarwyddwyr yn awyddus i annog cyfraddau presenoldeb uchel ac annog y plant i beidio â chymryd eu gwyliau yn ystod y tymor. Felly, mae'r penderfyniad wedi'i wneud **na ddylai unrhyw absenoldeb oherwydd gwyliau gael eu hawdurdodi gan unrhyw Bennaeth o fewn y chwe Awdurdod Lleol yng Nghonsortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru.***

Er fy mod eisoes yn ymwybodol eich bod fel rhieni yn gwneud pob ymdrech i drefnu gwyliau yn ystod y dyddiadau swyddogol. Fe fydd yr ysgol felly yn dilyn y canllawiau.

Hoffwn eich atgoffa hefyd taw fel rheol **yr unig reswm y dylai disgyblion golli ysgol yw os ydynt yn rhy sâl i fynychu'r ysgol.** Os yw hyn yn digwydd byddwn yn gwerthfawrogi derbyn neges ffôn cyn 10.00 o'r gloch ar **ddiwrnod cyntaf** absenoldeb eich plentyn. **Os na fyddwn yn derbyn unrhyw wybodaeth byddwn yn cysylltu â rhieni yn ystod y bore er mwyn cadarnhau'r rheswm dros yr absenoldeb.** Mae'n bwysig i'r ysgol wybod yn union ble mae pob plentyn er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Amddiffyn Plant.

Pan ddaw eich plentyn nôl i'r ysgol bydd angen nodyn i egluro'n fwy manwl y rheswm dros yr absenoldeb. Os fydd unrhyw amgylchiadau eraill yn achosi i'ch plentyn golli diwrnod o ysgol yna mae'n bwysig trafod hyn, ymlaen llaw os yn bosibl, gyda'r Pennaeth Blwyddyn er mwyn penderfynu a ellir awdurdodi'r absenoldeb ai peidio.

Swyddogion Newydd

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael eu hethol Prif Ferch Megan Hickland a Prif Fachgen Alun Crees a'r swyddogion ar gyfer eleni sef Marged Jones, Charlotte Moody, Rhys Jones a Gregory Hatfield. Dymuniadau gorau iddynt yn eu swyddi.

Côd Ymddygiad ar y Bysiau Ysgol

Byddwn yn ddiolchgar pe medrwyd drafod y rheolau canlynol gyda'ch plentyn/plant er mwyn sicrhau diogelwch pawb sy'n teithio ar y bws.

1. Rhaid i'r disgyblion ufuddhau i orchmynion y gyrrwr bws yn ogystal â Swyddogion Bws.
2. Rhaid i'r disgyblion eistedd ar y seddau ac ni ddylent grwydro o gwmpas y bws.
3. **Ceir gwregysau diogelwch ar fysiau ysgol penodedig a dylai disgyblion eu gwisgo bob amser**
4. Ni ddylai'r disgyblion byth dynnu sylw'r gyrrwr tra ei fod ef neu hi yn gyrru.
5. Does neb i ysmegu
6. Os yw disgyblion yn achosi difrod i'r bws bydd disgwyl i rieni dalu'n llawn am y difrod.
7. Ni ddylid gadael sbwriel ar y bws. Ni chaniateir caniau pop ar y bws.
8. Ni ddylid taflu unrhywbeth allan o'r bws ar unrhyw gyfri.

Bydd disgyblion sy'n camymddwyn yn debygol o gael eu gwahardd rhag teithio ar fysiau ysgol a bydd rhaid i rieni wneud trefniadau eraill i'w cludo nôl a blaen o'r ysgol.

Rhieni sy'n dod â disgyblion i'r ysgol

Hoffwn atgoffa rhieni sy'n cludo eu plant yn ôl a blaen o'r ysgol bod rhaid eu gadael a'u casglu ar waelod rhiw'r ysgol yn Stryd y Fro neu i ddilyn y system un ffordd trwy'r arhosfan bysiau a gollwng y disgyblion gerllaw'r ffreutur. Ni ddylid gyrru ceir lan rhiw'r ysgol a gollwng plant ger y drofan gan y gallai hyn beryglu diogelwch y disgyblion ar gampws yr ysgol.

Gall disgyblion y Chweched Dosbarth barcio ar safle'r ysgol os oes lle yn y maes parcio wedi i'r staff gyrraedd. Os nad oes lle rhaid parcio ar Stryd y Fro. Rhaid cofio mai 10 milltir yr awr yw'r uwchsafswm cyflymdra ar y safle.

Cau'r ysgol mewn Argyfwng

Rwyf am dynnu eich sylw at y ffaith y gall fod yn angenrheidiol weithiau i gau'r ysgol ar fyr rybudd. Bydd hyn, wrth gwrs, ond yn digwydd mewn **argyfwng**, er enghraifft mewn **achos o dywydd garw** neu o ganlyniad i broblemau gwres yn yr ysgol. Rwyf yn hollol ymwybodol y gall y drefn yma achosi problemau i rieni yn enwedig os nad oes rhywun gartref yn ystod oriau ysgol. Byddwn yn ddiolchgar felly pe baech yn trafod y mater hwn ac yn gwneud trefniadau priodol gyda'ch mab/merch.

Lluniau o'r disgyblion

Yn achlysurol, mae'n rhaid cymryd lluniau o'r disgyblion e.e. i hysbysebu yn y papurau lleol, yn y dosbarth fel prawf o weithgareddau, ac yn y blaen. Os nad ydych eisiau i hyn ddigwydd a wnewch chi ddangos hyn ar y rhwyglen ar waelod y llythyr.

Ffôn Symudol

Hoffwn eich atgoffa y gall disgyblion ddod â ffôn symudol i'r ysgol os ydynt am ei **ddefnyddio ar ôl oriau ysgol**. Fodd bynnag ni chaniateir **ei ddefnydd yn yr ysgol** ac ni fyddwn yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am ffonau sy'n cael eu difrodi neu'u colli yn yr ysgol. Ni chaniateir i ddisgyblion ddod ag IPOD's, chwaraewyr MP3, na chlustffonau i'r ysgol.

Parent Mail

Mae'r gwasanaeth hyn yn ein galluogi i'ch hysbysu o ddigwyddiadau trwy neges testun a danfon pob gohebiaeth yn electronig. Gofynnwn felly eich bod yn sicrhau bod gan yr ysgol eich rhif ffôn symudol a chyfeiriad e-bost diweddaraf.

Rasus Moch ac Ocsiwn

Dewch am noson o gymdeithasu fel teulu a ffrindiau i fwynhau yng nghwmni Llion Davies a'i foch (moch allan o bren) a Dai Morgan fel arweinydd y noson ar Nos Wener 27ain o Fedi yng Nghlwb Rygbi Aberaeron am 7.30yh. Bydd yna ocsiwn gyda tua deg eitem hefyd. Nod y noson yw codi arian tuag at brynu deunyddiau ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol megis cyfarpar i alldeithiau Dug Caeredin, a gwisgoedd Dawnsio Gwerin. Croeso i chi ffonio'r yr ysgol am fwy o wybodaeth

Lleihau Papur

Rydym yn ymdrechu i leihau faint o bapur a ddefnyddir yn ystod y tymor. Felly, os ydych yn hapus i dderbyn gwybodaeth drwy e-bost yna marciwch y bocs isod (os nad oes gennych fynediad i e-bost nodwch a byddwn yn danfon copi papur allan).

Yn olaf hoffwn groesawu disgyblion a rhieni newydd Blwyddyn 7 i gymuned yr Ysgol. Gobeithio y byddwch yn ymgartrefu'n gyflym ac y byddwch yn mwynhau profiadau'r ysgol uwchradd. Dymunaf yn dda i bob un o ddisgyblion yr ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd gyda'r nod o adeiladu ar lwyddiant ysgubol 2012/13.

Yn gywir

Wyn Evans
Prifathro

Rwyf wedi derbyn a darllen Cylchlythyr Medi 2013. Rwyf hefyd wedi trafod Ymddygiad ar y Bysiau a Chau'r Ysgol Mewn Argyfwng gyda fy mhlentyn

Nid wyf am i'm mhlentyn gael llun wedi'i dynnu yn yr ysgol.

Rwyf yn hapus i dderbyn gwybodaeth o'r ysgol drwy e-bost

Rwyf am dderbyn gwybodaeth o'r ysgol ar bapur

Rhif ffôn symudol Cyfeiriad e-bost

Enw'r Disgybl: Dosbarth:

Llofnod Rhiant: Dyddiad: